



dysgucymraeg.cymru  
learnwelsh.cymru  
**Sir Gâr**  
**Carmarthenshire**

## Dysgu Cymraeg Sir Gâr

### POLISI FFIOEDD 2021-22

#### PWRPAS A DIBEN

- Mae'r Polisi Ffioedd yn darparu fframwaith i osod ffioedd Dysgu Cymraeg Sir Gâr ar gyfer 2021-22 a disgrifir yr amodau lle gallai'r ffioedd dysgu gael eu rhoi heibio.

#### MANYLION Y POLISI

#### CYFLWYNIAD

- Mae Dysgu Cymraeg Sir Gâr yn codi ffioedd bob blwyddyn am eu cyrsiau yn y brif ffrwd. Bydd y ffioedd am bob cwrs ar bob lefel o fewn y brif ffrwd yn £90 yn ystod 2021/2022 fel a osodwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.
- Does dim Ffioedd Cofrestru am Arholiad. Er hynny, bydd ffi gweinyddiaeth o £20 yn daladwy am beidio â mynychu.
- Rhaid talu pob ffi wrth ymrestru.
- Fydd dim ffioedd ychwanegol i ddysgwyr am drosglwyddo rhwng cyrsiau.
- Oni bai bod *Cefnogaeth Cyflogwr* wedi ei drefnu, y dysgwyr fydd â'r cyfrifoldeb eithaf am dalu eu ffioedd, p'un a'i drwy anfoneb neu beidio.
- Os bydd gan ddysgwr ddyledion dyledus am gyrsiau blaenorol, fydd ddim hawl ganddo/ganddi i ymrestru ar unrhyw gwrs na symud ymlaen â rhaglen astudio, nes i bob ffi ddyledus gael ei thalu.
- Mae'n bosib bydd gan ddysgwyr, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau a'r cwrs, yr hawl i gyfradd Gostyngol. Gweler isod.
- Dim ond un gostyngiad ar y tro y gellir eu hawlio ar bob cwrs prif ffrwd.
- Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod y cyfraddau Gostyngol ond yn berthnasol ar gyfer Ffioedd Addysgu'r Cyrsiau yn y Brif Ffrwd. Rhaid talu'r ffioedd llawn am bob cwrs arall.
- Mae'n bosib y gallai dysgwyr sydd ddim yn gymwys am gyfradd Gostyngol gael hygyrchedd i fodd arall o Gefnogaeth Ariannol. Cewch fanylion yn <https://dysgucymraeg.cymru/cymorth/cronfa-ariannol/> a/neu geisio am Fwrsari trwy ysgrifennu at [dysgucymraeg@sirgar.gov.uk](mailto:dysgucymraeg@sirgar.gov.uk).

## DISGYBLION YSGOL

- Does gan ddisgyblion o dan 16 oed **DDIM** hawl i ymrestru ar unrhyw gwrs.

## FFIOEDD GOSTYNGOL

Dim ond y ffioedd gostyngol a restrwyd yn y ddogfen yma fydd ar gael. Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth, neu fydd ddim modd gwarantu'r ffi gostyngol. Ar ôl derbyn y dystiolaeth bydd unrhyw ffioedd dyledus yn eich proffil yn cael eu haddasu.

- 16 – 19 mlwydd oed
- Myfyrwyr llawn amser
- Pobl sy'n derbyn y budd-daliadau a'r lwfansau a restrwyd:
  - Elfen Warrant Isafswm Incwm Pensiwn y Wladwriaeth
  - Budd-dal Treth Plant ag Incwm *Cartref* blynyddol o dan £16,190
  - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm
  - Lwfans Ceisio am Waith yn seiliedig ar incwm
  - Cymorth o dan Ran VI o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999
  - Taliad Annibyniaeth Personol (PIP)
  - Lwfans Ceisio am Waith yn seiliedig ar gyfraniadau
  - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
  - Cymhorthdal Incwm
  - Credyd Treth Gwaith
  - Lwfans Byw i'r Anabl (DLA)
  - Lwfans Profedigaeth
  - Lwfans Gofalwyr
  - Budd-dal Tai
  - Mae Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno a bydd rhai buddion yn berthnasol
- Mae gostyngiad o 40% ar gael ar yr amodau yn y rhestr uchod. Bydd y gostyngiad yn cael ei roi yn erbyn y ffi derfynol. Dyw hyn ddim ar gael ar gyfer cyrsiau un-dydd.
- Nodwch, os gwelwch chi'n dda, fod rhaid i'r ffurflen 'cadarnhad o dderbyn budd-dal/iadau' fod yn ddilys ar ddiwrnod yr ymrestru er mwyn i'r ffi hawlio'r gostyngiad. Rhaid i bob hawliwr gael dogfen gyffelyb sydd ar gael o'u swyddfa *Job Centre Plus* leol.
- **Noder, os gwelwch chi'n dda, bod rhaid i'r Prawf o Fudd-dal fod yn enw'r dysgwr.**
- Gall ddysgwyr sydd ddim yn gymwys am y ffioedd gostyngol uchod wneud cais am fwrsari trwy gwblhau ffurflen gais a darparu tystiolaeth a fydd yn cael ei asesu am gymorth ariannol. Ysgrifennwch at [dysgucymraeg@sirgar](mailto:dysgucymraeg@sirgar) am fanylion.

## GOSTYNGIADAU

- Os defnyddir cod gostyngiad, rhaid ymrestru a thalu cyn dyddiad terfyn y gostyngiad.
- Dim ond un côd gostyngiad/côd budd-dal gellir ei ddefnyddio ar gyfer bob cwrs

## AIL-ASESU FFIOEDD

- Ystyrir ail-asesu ffioedd o dan amgylchiadau penodol yn unig.

## **AD-DALIADAU A RHANDALIADAU**

- Mae'r strwythur ad-daliadau wedi ei osod allan isod lle nad yw'r dysgwyr yn parhau i ddysgu (cyrsiau prif ffrwd yn unig).
  - Lle nad yw'r dysgwr yn mynychu'r wers gyntaf, ad-delir 80% o'r ffi.
  - Lle mae'r dysgwr yn rhoi'r gorau i'r dysgu o fewn y bedair wythnos gyntaf, ad-delir 50% o'r ffi.
  - Lle nad yw'r dysgwr yn parhau ar ôl y bedair wythnos gyntaf fydd ddim ad-daliad ar gael.
- Fydd dim strwythur rhandaliadau yn cael ei gynnig i ddysgwyr.

## **TALU**

### **AMODAU TALU**

- Rhaid talu ffioedd wrth ymrestru

### **DULLIAU TALU**

- Gellir talu ar-lein â cherdyn neu'n bersonol â siec neu arian parod
- Atgoffir y dysgwyr taw nhw sydd a'r cyfrifoldeb eithaf am dalu eu ffioedd oni bai bod eu cyflogwr yn eu noddi (cysylltwch â [dysgucymraeg@sirgar.gov.uk](mailto:dysgucymraeg@sirgar.gov.uk) am ffurflenni noddi).
- Bydd dysgwyr yn derbyn anfoneb yn awtomatig os na fydd prawf o'r noddi wedi cael ei dderbyn erbyn dyddiad yr ymrestru a bydd y tâl yn ymddangos ar ei broffil unwaith bydd y nawdd wedi'i dderbyn.

### **COSB AM BEIDIO Â THALU**

- Os na fydd y ffioedd yn cael eu talu, bydd rhaid i ni ofyn i'r dysgwr adael y cwrs.